Prosiect Ail-greu Lyra Ur 10/10/2003

Darganfuwyd Lyra Euraidd Ur yn 1929 ac fe'i cedwir yn Amgueddfa Baghdad. 'Model' na ellir ei chanu ydyw.
Amcangyfrifir ei bod yn 4,750 mlwydd oed ac y'i gwnaed 500 mlynedd cyn adeiladu'r Pyramid Mawr yn yr Aifft!

Rhagarweiniad

Yn Ebrill 2003, ffurfiodd Andy Lowings grŵp i ailadeiladu 'gwir' fersiwn o Delyn (neu Lyra) enwog Ur - fersiwn y gellid ei chanu y tro hwn.
Cafodd ei ysbrydoli ar ôl gweld cerfiadau cerrig yn Amgueddfa Chicago ac ar glawr cylchgrawn. Daw'r delyn o gyfnod cynharaf diwylliant dynol.
Ni does 'gwir' fersiwn wedi ei chreu o'r blaen. Defnyddir glud fel a ddefnyddiwyd yn y delyn wreiddiol, cregyn o'r Gwlff a phren o ardal Swmeria.
Tynnwyd sylw'r cyfryngau rhyngwladol at y delyn pen-tarw a gedwir yn yr amgueddfa yn Baghdad oherwydd yr anghydfod yn Iraq. Mae ailgreu telyn a all gael ei chanu a'i chlywed heddiw wedi creu tipyn o gynnwrf a diddordeb.
Mae'r prosiect yn un amserol iawn. Fe hoffem fel grŵp ledaenu cynulleidfa'r delyn a thraethu ei stori led led y byd.

Y Crefftwyr

Mae'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer ailadeiladu'r delyn yn dal i fodoli heddiw ac mae gennym dîm o'r crefftwyr gorau sydd yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Mae rhestr o ymgynghorwyr a gwneuthurwyr brwd gyda ni hefyd sy'n barod i ymgymryd â'r gwaith.
Mae'r prosiect wedi denu cerddorion Iraqaidd, gan gynnwys Cerddorfa Symffoni Genedlaethol Iraq sydd â diddordeb yn ein gwaith.
Prosiect di-elw yw hwn heb unrhyw duedd gwleidyddol.
Fe'n gwahoddwyd ni eisoes i ganu'r delyn yng Nghaergrawnt, New Mexico, Washington DC UDA, Fiena, Awstria, Llundain a Dubai.
Ar ôl blwyddyn o berfformio, fe fyddwn yn cyflwyno'r delyn i sefydliad fydd yn ein tyb ni, yn addas i gadw a gofalu am yr offeryn.
Eiddo 'Pwyllgor' yw'r Delyn ac nid unrhyw aelod unigol.
Rydym wedi derbyn cefnogaeth anhygoel i'r prosiect ac eisoes wedi cyfarfod â **Chyfarwyddwr y Cyngor Prydeinig (Iraq) yn Llundain**.
Fe'n cefnogir gan **Gymdeithas Cenedlaethol Arabiaid Prydain** hefyd.
Daethpwyd o hyd i bren, cerrig a bitumen yn Iraq gan ein cefnogwyr yno a chludwyd y defnyddiau yma i Ewrop gan yr Awyrlu Frenhinol a'u cyflwyno i ni gan aelodau **Criw Difa Bomiau 5131**.
Caniatawyd i ni ddefnyddio swyddfeydd yr **Amgueddfa Brydeinig yn Llundain** ar gyfer ymchwil ac ymgynghorwyr Archeolegol yn **Amgueddfa Baghdad, Iraq**. Mae'n dîm gwirioneddol ryngwladol.
Ein tasg nesaf yw chwilio am y cerddorion a'r perfformwyr gorau i gyflwyno'r offeryn fel darn o gelfyddyd yn ei hun ond hefyd er mwyn dweud ei stori.
Mae CD'n bodoli eisoes o Delyn Ur, cello a thelyn glasurol.

I gloi…

Hoffem eich gwahodd i ymuno â ni yn y prosiect hwn trwy roi o'ch gwybodaeth a'ch sgiliau er mwyn sicrhau llwyddiant pellach i'r prosiect.
Mae'r seiniau cerddorol cynnar yma yn perthyn i bawb trwy'r byd.
Andy Lowings
andy_lowings@hotmail.com

LLOYDS BANK "Harp of Ur" for donations (Code LOYDGB2L)
15 Church St., Northborough, Peterborough PE6 9BN U.K.

www.lyre-of-ur.com